

Cofion a Chydymdeimlad

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddiâu heddiw. Estynnwn ein cydymdeimlad â Merfyn Hughes a gweddill y teulu ym marwolaeth ei fam, Mrs Elizabeth Hughes (Llansannan). Diolchwn gyda'r teulu am y gofal a gafodd yng nghartref Plas Eleri dros y tair mlynedd ddiwethaf a gweddiwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu hiraeth amdani.
- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf hefyd â Ceridwen Evans (Llansannan) ym marwolaeth ei merch, Meira, oedd hefyd yn chwaer i Gwyn Evans (Llanfair). Cofiwn yn annwyl iawn am weddill y teulu hefyd yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.
- Felly hefyd y gweddiwn yn achos Eurgain Jones (Llansannan) ym marwolaeth ei thad, Robert Edwards, a Cledwyn Williams (Llansannan) yntau wedi colli ei frawd, Gwynfor. Cyflwynwn hwythau a'u teuluoedd hefyd i ofal yr Arglwydd â'r un gobaith y bydd Iesu ei hun yn gwmni ac yn gysur iddynt.
- Dymunwn wellhad buan iawn i Clwyd Rogers (Llanefydd) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ganol yr wythnos. Yno'n parhau i gael gofal hefyd y mae Megan Evans a Ceinlys Jones (Llansannan), fel ag y mae Dilys Vaughan (Saron) yn yr Inffirmari, Gwyneth Rawson (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno, a Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Rhuthun. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i bob un ohonynt a phawb arall o'r Fro sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn, gan hyderu y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu gwarchod a'u cynnal yn eu hangen.

Diolch

Mae cyfanswm o £700.00 wedi ei anfon o Fro Aled i Gasgliad Arbennig Chwiorydd y Gogledd, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru. Diolch am eich cyfraniadau hael.

I ddod

- **KESWICK – LLANDUDNO: WYTHNOS Y BEIBL** 'Overflowing Grace' gyda John Risbridger yn y Lighthouse Community, Ffordd y Gogarth, Llandudno LL30 2EJ (Mai 1af – 4ydd). **Cyfarfod Cymraeg** nos Wener am 7.30 gyda'r Parch. Ddr Rhodri Glyn yn pregethu. Cyfarfodydd eraill bore Mercher, Iau a Gwener am 10.30 y bore; a nos Fawrth, Mercher a Iau am 7.30 yr hwyr. Gwneir casgliad.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Bethania, Rhuthun dydd Mercher, Mai 2il. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan dydd Gwener, Mai 11eg. Pwyllgor Gwaith am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith cwrs plant ac oedolion yr Ysgol Sul.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Ebrill 2018

Darllenid y Dydd

Nehemeia 1:8-11

(BCND tud.437 / BCN tud.400)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da iawn i bawb a diolch i Rhodri am y gwahoddiad i sgwennu Llais Bro Aled heddiw am y tro cyntaf ers sbel! Dwn i ddim yn iawn ble i ddechrau – does yna gymaint wedi digwydd ac amgylchiadau a phrofiadau newydd i'w rhannu. Y lle gorau i ddechrau siŵr o fod ydi trwy ddiolch – diolch i Dduw am ei faith amynedd a'i ofal ac am y fraint o gael bod yn rhan o'i Eglwys. Mewn ffydd credwn fod yna fendith newydd i ni bob tro y byddwn yn diolch iddo, a'r fendith o gael adnabod 'grym ei atgyfodiad' wrth i ni wynebu bob dydd yn ei gwmni.

Mae'r plantos wedi llenwi ein byd yma ers yr ymddeoliad fel y gallwch ddychmygu! Hen dro na fuaswn i mor hirben wrth fagu ein plant ag yr ydw i rŵan wrth warchod ein wyresau, ond peth mawr ydi profiad. Diolch fyddwn ni amdanynt nhw ac wrth wneud hynny, diolch am ofal holl deuluoedd y Fro dros y plant a gweddio bendith Duw ar bob un.

Does gan Dduw ddim wyrion na wyresau. Mae yn geni plant o'r newydd trwy'r Ysbryd ac yn rhoi 'Abba, Dad' yn eu calonnau ac yn eu genau. Rwy'n cofio mynd i Mizoram yn 1994 a dweud wrth y genhedlaeth newydd o Gristnogion yno nad oedd y ffaith fod fy nhad yn Genhadwr yn fy ngwneud i yn Gristion a bod yn rhaid i minnau ddod fy hun at Grist a chael fy ngeni o'r newydd yn blentyn iddo. Roedd hynny yn sioc i rai ond yn taro nodyn cywir i eraill.

Ond fe fyddwn yn hoffi meddwl ar yr un pryd fod elfen o ofal taid a nain yn Nuw hefyd yn ogystal â gofal a chariad tad a mam.

Yn y Beibl sylwn fod Duw yn cofio cenedlaethau o bobl a theuluoedd, ac y mae wedi gosod i bob cenedlaeth ei chyfrifoldeb y naill i'r llall. Yn y gorchymyn syml "anrhydedda dy dad a'th fam" mae pob cenedlaeth yn cael ei chynnwys a chyfrifoldeb y naill am y llall yn glir.

Yn ôl Ioan (19:26), dyma ddywedodd Iesu wrtho a Mair pan oedd yn cael ei groeshoelio "Mam annwyl, cymer o fel mab i ti,"²⁷ ac wrth y disgybl, "Gofala amdani hi fel petai'n fam i ti." Anrhydeddodd ei Dad nefol trwy gadw pob gorchymyn i'r eithaf. Wrth i ninnau geisio anrhydeddu Duw ein Tad nefol mwynhawn bob cyfle i ddangos gofal a chariad y naill genhedlaeth tuag at y llall – hyd yn oed os ydio'n golygu gwyllo'r un rhaglen Peppa am y degfed tro!!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Aneurin

Darllenid Wythnos Nesaf

Hebreaid 13:1-6 (BCND tud.250 / BCN tud.229)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Ni chynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan heno, ond yn hytrach, mae cyfle inni fynd draw i Brestatyn i wyl **'Word Alive'** lle cawn ymuno mewn oedfa o fawl yn y babell fawr ar safle Pontins Prestatyn Sands, LL19 7LA. Hugh Palmer, Ficer Eglwys All Souls, Llundain fydd yn pregethu a bydd yr oedfa'n cychwyn am 6.30 yr hwyr. Awgrymwn i bawb gyfarfod ym maes parcio Pontins am 6.00 fel y gallwn fynd i brynu tocynnau (pris: £10.00). Os oes unrhyw un yn dymuno cael lifft, neu bod modd i chi roi lifft i rywun arall, plis cysylltwch â Mair. Mae mwy o wybodaeth i'w gael am weithgareddau'r wythnos (7^{fed} – 12^{fed}) ar y wefan: wordaliveevent.org.
- Mercher – 11^{eg} ➤ **Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** – Noson Gymdeithasol yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych am 7.00 yng nghwmni Elin Bryn Williams. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- **Torri Syched y dynion a'r merched** – noson o weddi yn y Granar am 7.30.
- Iau – 12^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- **Astudiaeth Feblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 13^{eg} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (8^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i ddilyn.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Nantglyn am 2.00.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 10^{fed} ➤ Mae cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel Peniel yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Cynhelir Ysgol Sul yno am 2.00.
- Llun – 9^{fed} ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn Ffestri'r Capel am 3.15.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deulu i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Rhagrybudd ➤ Yn ystod oedfa'r bore yng Nghefn Berain ar Ebrill 22ain, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.

Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*